

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Caerdydd
Lleol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd yn parhau i wynebu galw a heriau sylweddol o ran diwallu anghenion poblogaeth amrywiol. Cafwyd cyfleoedd i ddatblygu yn sgil colli uwch reolwyr a'r defnydd o drefniadau dros dro ar adeg pan oedd yr adran yn mynd drwy gyfnod o newid. Fodd bynnag, creodd hyn heriau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol o ddydd i ddydd hefyd.

Bwriwyd ymlaen â chynlluniau ar gyfer ailstrwythuro ar draws y cyngor yn ystod y flwyddyn ac mae cyfarwyddwr newydd y gwasanaethau i blant a'r cyfarwyddwr iechyd a gofal cymdeithasol newydd i fod i ddechrau yn eu swyddi ym mis Awst 2013.

Mae gwaith partneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg yn dal i fod yn elfen gref o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae trefniadau i sefydlu bwrdd diogelu plant ar y cyd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn a rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn amlygu amrywiaeth o lwyddiannau a datblygiadau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'n adroddiad cadarnhaol sy'n cyfeirio at welliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gwella yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant, ond nid yw'n adlewyrchu'n llawn y peryglon sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ac ailstrwythuro gwasanaethau mewn meysydd allweddol.

Oedolion

Gwnaed gwaith gyda Bro Morgannwg a Chaerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro i ddatblygu cronfa o welyau sydd ar gael mewn cartrefi gofal ar y we.

Datblygwyd y fenter hon i gynorthwyo darparwyr i nodi lleoedd gwag yn eu gwasanaethau.

Cryfhawyd gwaith partneriaeth gyda Bro Morgannwg a Chaerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro drwy gyd-benodi uwch reolwr i reoli'r gwasanaethau anabledd dysgu i oedolion.

Mae'r cyngor wedi cymryd camau i ystyried ail-dendro ar gyfer y gwasanaethau gofal cartref. Mae wrthi'n ystyried, ar hyn o bryd, ffyrdd arloesol o wella ansawdd y gofal a moderneiddio gwasanaethau a'r gweithlu trwy ddatblygu grŵp buddiant cymunedol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac yn cael ei gefnogi a'i arwain gan aelodau o'r cabinet.

Plant

Mae'r Pwynt Mynediad i Blant wedi ei sefydlu bellach fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad ar gyfer asesiad cychwynnol.

Mae'r cyngor wedi parhau i adolygu gwasanaethau ac mae systemau perfformiad mewnol wedi eu gwella. Amlygodd hyn, yn ei dro, broblemau difrifol mewn arfer o ran gwneud penderfyniadau mewn rhai meysydd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r cyngor wedi cymryd camau unioni pendant.

Mae strategaeth blant newydd yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei lansio yn 2013. Gwnaed cynnydd o ran yr uno gyda Bwrdd Lleol Diogelu Plant Bro Morgannwg mewn ymateb i ddatblygiad ehangach mentrau cydweithredol rhanbarthol.

Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn peri pryder ac yn awgrymu bod gan y cyngor wendidau o ran cynllunio ar gyfer plant, sicrhau sefydlogrwydd a chefnogi eu lleoliadau mewn ysgolion.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Pwysau ar y gyllideb a chynaliadwyedd y strwythurau rheoli cyfredol.
- Y cynnydd a ragwelir mewn galw oherwydd poblogaeth sy'n cynyddu.
- Effaith diwygio lles a chynnydd posibl yn y galw am wasanaethau'r cyngor.
- Y gallu i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai.
- Ailstrwythuro a'r angen i sefydlu arweinyddiaeth gyson a phrofiadol sydd â chyfeiriad eglur.
- Perfformiad gwan o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol i blant sy'n derbyn gofal a'r cynnydd dilynol yn nifer y plant sy'n parhau i dderbyn gofal gan y cyngor.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor wedi darparu tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i wella ei broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae wedi buddsoddi adnoddau sylweddol yn y tîm derbyn ac asesu a neilltuwyd wyth swydd gwaith cymdeithasol ychwanegol i'r tîm. Roedd llythyr

gwerthuso'r cyngor ar gyfer 2011/12 yn dangos y byddai'r gwasanaeth hwn yn faes i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddo yn 2012/13.

Arweiniodd sefydliad y Pwynt Mynediad i Blant i ymateb i ymholiadau cychwynnol ac atgyfeiriadau at rai gwelliannau cynnar na chawsant eu cynnal cystal â'r disgwyl. Mae ymdrechion yn parhau i sicrhau y gall y "drws ffrynt" hwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i blant a theuluoedd.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd o ran ei waith gyda gofalwyr ac mae'n parhau i roi rhywfaint o flaenoriaeth i hyn. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn ystod y flwyddyn ac mae'r cyngor yn gweithio gydag asiantaethau partner lleol i ddatblygu strategaeth fwy eglur ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith wedi symud yn ei flaen hefyd o ran ymgysylltu â grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a nodwyd fel maes y mae wedi bod angen ei wella ers cryn amser.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf newydd i fynd i'r afael â'r diffyg o ran asesiadau gofalwyr ifanc.
- Parhau i gryfhau gwaith partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos, y bwrdd iechyd lleol a phartneriaid trydydd sector.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

Yn ogystal â'r rhaglen o arolygiadau rheoleiddio a gynhelir gan AGGCC, gwnaed y gwaith canlynol hefyd:

- Ymweliad safle â gwasanaeth ail-alluogi Caerdydd.
- Ymweliad safle â'r tîm derbyn ac asesu.
- Cyfarfod â'r grŵp strategaeth gofalwyr ifanc.
- Mynychu pwyllgorau craffu.
- Mynychu fforymau darparwyr.
- Cyfarfodydd ymgysylltu â swyddogion arweiniol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Ymweliad safle â'r tîm amddiffyn plant, i adolygu cyfarfodydd proffesiynol Rhan 4 yn benodol.
- Ymweliad safle â'r tîm anabledd plant a theuluoedd.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal

- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Nododd adolygiad y cyngor y llynedd yr angen i gryfhau comisiynu i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol ac i ddatblygu strategaeth ymgysylltu ymhellach ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaethau a strategaethau ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn 2012/13. Mae'r cyngor wedi cynyddu ei ymgysylltiad â grwpiau lleiafrifoedd ac wedi nodi bod 11.3% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r cyngor bellach yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer strategaethau a pholisïau newydd ac mae wedi diwygio polisïau a gweithdrefnau yn sylweddol.

Caiff ymgysylltiad â'r gwasanaethau i blant i fonitro er mwyn sicrhau bod anghenion ethnigrwydd a diwylliannol yn cael eu hadlewyrchu yn ymateb y cyngor i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn dangos ymarfer ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gyda gofawyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, mae menter ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chyngor trydydd sector Caerdydd, ynghyd â Bro Morgannwg, wedi datblygu strategaeth gwybodaeth ac ymgynghori â gofawyr. Ei nod yw gwella cefnogaeth a gwybodaeth i ofawyr.

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau i gryfhau ei drefniadau partneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae cais llwyddiannus ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg wedi arwain at sefydlu cronfa gydweithredol ranbarthol i ddarparu modelau gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae ymrwymiad y cyngor i hyrwyddo a chefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth yn y gymuned yn dal i fod yn flaenoriaeth ac mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod hyn yn cael ei ddatblygu. Mae llwyddiant gwasanaethau ail-alluogi a'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi cynnig dewisiadau gwirioneddol i bobl Caerdydd am y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u derbyn.

Mae'r cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid tai trwy brosiect tai hygyrch Caerdydd i ddod o hyd i dai newydd priodol i bobl pan allai hyn eu galluogi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac aros yn y gymuned yn hirach. Mae'r defnydd o dai gofal ychwanegol i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi wedi bod yn llwyddiannus. Agorwyd cyfleuster gofal agos newydd gan y cyngor yn 2012, yn darparu fflatiau annibynnol a gofal seibiant ychwanegol i bobl hŷn.

Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth comisiynu anabledd dysgu ar gyfer 2012 i 2017 ynghyd â chynllun gweithredu ar eu bwriadau comisiynu. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy'r defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol, gwasanaethau seibiant, tai â chymorth a'r defnydd o gynlluniau lleoli oedolion.

Plant

Mae'r cyngor yn ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o wella canlyniadau i bobl ifanc ac mae wrthi'n archwilio'r defnydd o fondiau effaith cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae hwn yn faes datblygu y bydd gan AGGCC ddiddordeb yn ei archwilio yn ystod y flwyddyn i ddod o ran yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir a'r manteision posibl i bobl ifanc.

Mae'r cyngor wedi cynnal ymgyrch farchnata i gynyddu nifer y gofalwyr maeth sy'n cael eu recriwtio gan y cyngor. Ni wireddwyd manteision yr ymgyrch yn llawn eto a'r gobaith yw y bydd cynnydd pendant yn nifer y gofalwyr sy'n cael eu recriwtio ac sy'n darparu lleoliadau lleol yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r cyngor hefyd wedi dechrau archwilio ffyrdd newydd o wella perfformiad yn ei wasanaethau mabwysiadu. Mae'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf i ddatblygu panel mabwysiadu rhanbarthol yn cael ei archwilio gan baratoi ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol arfaethedig i Gymru.

Mae'r cyngor yn cydnabod yr her o ran nodi ac asesu gofalwyr ifanc. Mae'r strategaeth gofalwyr ifanc wedi ei chytuno ac mae cynllun sefydlu a darparu ar waith. Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i weithio mewn cydweithrediad agos ag amrywiaeth o ddarparwyr gwirfoddol a thrydydd sector i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc.

Meysydd o gynnydd

- Ymgysylltu â phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wrth ddatblygu gwasanaethau.
- Gwaith partneriaeth gyda'r adran dai i gynorthwyo plant ac oedolion mewn llety priodol.

Meysydd i'w gwella

- Recriwtio gofalwyr maeth.
- Parhau i wella hygyrchedd taliadau uniongyrchol.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau ei waith i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi trwy wasanaethau ail-alluogi, mentrau tai â chymorth a chymorth ac ymyrraeth cymunedol.

Mae'r defnydd o daliadau uniongyrchol wedi cynyddu. Mae'r cyngor yn cydnabod nad yw'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cyrraedd ei darged; fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn. Mae gwaith partneriaeth da yn cael ei wneud gyda Diverse Cymru i gefnogi pobl sy'n dymuno manteisio ar daliadau uniongyrchol. Yn ogystal ag ymrymuso pobl i reoli eu bywydau eu hunain a rheoli eu gofal eu hunain, ceir tystiolaeth bod trefniadau taliadau uniongyrchol a reolir drwy'r gwasanaeth hwn yn sicrhau rhywfaint o arbedion cost i'r cyngor hefyd.

Mae AGGCC wedi cadarnhau bod y cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu'r gwasanaeth ail-alluogi er mwyn cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain ac i gefnogi rhyddhad cleifion o ysbytai. Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi siarad yn gadarnhaol am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen i'r cyngor sicrhau trosglwyddiad didrafferth yn dilyn rhyddhau o wasanaeth ailalluogi pryd y bydd yr angen am becynnau gofal yn parhau. Mae'n bwysig sicrhau bod gan asiantaethau gofal cartref ddigon o wybodaeth i wneud gwaith dilynol ar y manteision a gafwyd o raglenni adsefydlu.

Mae'r cyngor yn gwneud pob ymdrech i wella canlyniadau i bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty trwy alluogi asiantaethau gofal cartref i barhau â pheccynnau gofal sy'n bodoli eisoes o fewn cyfnod o 72 awr heb orfod cael eu hailasesu ar gyfer gwasanaeth. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ymhlith darparwyr ac mae'n cynnig manteision i bobl o ran gallu cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn fwy effeithiol ac yn fwy diogel.

Er y mentrau hyn, mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu rhyw fymryn ac mae bron i ddwywaith cymaint â chyfartaledd Cymru gyfan ar hyn o bryd. Mae'r cyngor yn ymwybodol y bydd angen iddo barhau i weithio gyda phartneriaid yn yr adran iechyd i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae nifer yr oedolion ag anabledd corfforol sy'n derbyn gwasanaeth yng Nghaerdydd yn gymharol isel o'i chymharu â gweddill Cymru. Efallai y bydd y cyngor yn dymuno archwilio'r rhesymau posibl am hyn a chael ei sicrhau nad yw trothwyon wedi eu gosod mor uchel fel bod pobl mewn angen yn cael eu hatal rhag derbyn gwasanaeth.

Mae'r tîm namau corfforol a synhwyraidd wedi cael ei ailstrwythuro ac mae'r cyfarwyddwyr yn hysbysu nad oes unrhyw un â nam corfforol yn disgwyl am asesiad ar hyn o bryd.

Mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod y cyngor yn perfformio'n dda o ran darparu gwasanaethau yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu.

Mae'r cyngor yn rhan o brosiect monitro a chefnogi rhanbarthol a arweinir gan Gyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd i ddatblygu cymorth i bobl ag awtistiaeth nad oes angen darpariaeth gofal cymdeithasol ffurfiol arnynt.

Nid yw effaith camau diwygio lles y Llywodraeth yn hysbys eto. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r effaith sylweddol y gallai hyn ei gael ar bobl yng Nghaerdydd ac ar y galw am wasanaethau a chefnogaeth. Ystyriwyd adroddiad i'r perwyl hwn gan y cabinet.

Plant

Mae'r Pwynt Mynediad i Blant ar waith bellach a dyma'r pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer yr holl atgyfeiriadau i'r tîm. Gwneir tua 1600 o gysylltiadau mewn mis. Mae'r tîm yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r nifer o atgyfeiriadau. Mae ystadegau perfformiad yn nodi cynnydd yng nghanran yr ail-atgyfeiriadau a wneir mewn blwyddyn a allai awgrymu bod angen dadansoddi a goruchwyllo ychwanegol o ansawdd y penderfyniadau a wneir.

Mae'r cyngor wedi buddsoddi adnoddau sylweddol yn y tîm derbyn ac asesu ond mae ffigurau perfformiad y trydydd chwarter a ddarparwyd gan y cyngor yn dangos dirywiad mewn perfformiad, er ei fod wedi bod yn well ar y dechrau, a chynnydd i'r ail-atgyfeiriadau yn y flwyddyn gyntaf. Mae canran yr atgyfeiriadau lle y gwneir penderfyniad o fewn diwrnod yn is na chyfartaledd Cymru, sy'n dangos bod gwaith i'w wneud o hyd i wella a chynnal perfformiad da yn y maes gwasanaeth hwn.

Mae effaith yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer derbyn ac asesu wedi arwain at rywfaint o oediadau wrth drosglwyddo achosion yn dilyn asesiad cychwynnol, yn enwedig i'r tîm plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn ychwanegol i'r pwysau y dywedir sy'n codi o boblogaeth aml-ddiwylliant a cheiswyr lloches sy'n byw yn y ddinas.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro yn weithredol bellach. Bydd angen gwerthuso manteision y gwasanaeth hwn wrth i'r gwasanaeth ymsefydlu.

Meysydd o gynnydd

- Mwy o adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer derbyn ac asesu.
- Gwaith partneriaeth gyda Diverse Cymru i gynorthwyo pobl gyda thaliadau uniongyrchol.
- Gwaith gyda darparwyr gofal cartref i gefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol.

Meysydd i'w gwella

- Adolygu gallu'r tîm Pwynt Mynediad i Blant er mwyn ymateb i gyswllt cychwynnol yn brydlon.
- Sicrhau ansawdd y penderfyniadau a wneir yn ystod y cyswllt cychwynnol.
- Lleihau nifer yr ail-atgyfeiriadau mewn blwyddyn.
- Adolygu trothwyon ar gyfer pobl â namau synhwyrdd a chorfforol.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu gwasanaethau ailalluogi mewnol. Ceir dau wasanaeth sy'n dod o dan ambarél ailalluogi ac mae'r ddau'n darparu cefnogaeth am gyfnod penodol i bobl sy'n agored i niwed adennill neu gynnal eu hannibyniaeth.

Cynhaliodd AGGCC ymweliad safle â'r gwasanaeth ailalluogi. Canfuwyd yn gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaeth da i bobl Caerdydd ond ceir llawer iawn o alw ar y gwasanaeth am gefnogaeth yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty o hyd. Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y cydbwysedd yn gywir rhwng cefnogi pobl i aros yn y gymuned a chefnogi'r rhaglen rhyddhau o'r ysbyty.

Mae gan y cyngor hanes da o hybu annibyniaeth trwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol ac mewn partneriaeth â'r gwasanaeth larwm cymunedol ac mae wedi penodi swyddog cyswllt teleofal bellach. Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio yn y gwasanaethau cymunedol ac ailalluogi gyda'r nod o gynorthwyo i asesu pobl a chefnogi defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r system teleofal. Dylai hyn gryfhau'r sicrwydd a'r diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae ystadegau'n dynodi bod mwyafrif y bobl sy'n derbyn gwasanaethau yng Nghaerdydd yn derbyn gwasanaethau yn y gymuned, a chyfran gymharol fechan o bobl sy'n cael eu cefnogi mewn gofal preswyl. Mae pwysigrwydd parhau i hyrwyddo hunangymorth a datblygu modelau ar gyfer byw'n annibynnol yn hanfodol pan fo tueddiadau poblogaeth y dyfodol a dadansoddiadau o angen rhagweledig yn dynodi cynnydd sylweddol i nifer y bobl y gallai fod angen cefnogaeth arnynt.

Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth anabledd dysgu mewn partneriaeth â bwrdd iechyd lleol Caerdydd a'r Fro a bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Mae cynlluniau i ddarparu gwasanaethau integredig gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Caerdydd a'r Fro yn cael eu harchwilio.

Mae gwariant ar gyfer 2012/13 yn dangos y gwariwyd traean o'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau anabledd dysgu. Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod gwasanaethau arbenigol i bobl ag anabledd dysgu wedi costio llawer mwy yn hanesyddol na gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan y cyngor. Fodd bynnag, mae'r gwariant cyllideb rhagweledig ar wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn dangos gostyngiad yn y gost ac mae adroddiad

monitro refeniw'r cyngor ei hun yn dangos rhai arbedion a wnaed oherwydd swyddi gwag. Efallai y bydd hyn angen adolygu a sylw pellach er mwyn sicrhau nad yw arbedion o'r fath yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Bu cynnydd unwaith eto yn y defnydd o daliadau uniongyrchol i alluogi pobl i gael dewis gwirioneddol o ran sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'r maes gwaith hwn, mewn partneriaeth â Diverse Cymru, yn cynnig dewis gwirioneddol i bobl a chefnogaeth i reoli taliadau. Y manteision i bobl o ddefnyddio'r gwasanaeth yw mwy o ddewis a'r cyfle i gymryd rhan yn y gymuned gyda gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn ac yn cynnig dewis a rheolaeth. Mae'r cyngor wedi mabwysiadu dull partneriaeth o ymdrin â thaliadau uniongyrchol sy'n arbed arian i'r cyngor o ran rheoli taliadau ac yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio.

Mae gan y ddinas nifer fawr o leoliadau gofal a reoleiddir, a weithredir gan y sector annibynnol drwy amrywiaeth eang o wasanaethau o ansawdd amrywiol. Mae cost comisiynu a darparu gofal preswyl i'r cyngor o ran nifer y bobl a gefnogir yn gymharol uchel o'i chymharu â chynghorau eraill. Mae'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â lefel y ffioedd a delir am leoliadau, ac efallai y bydd y cyngor yn dymuno archwilio hyn.

Mae AGGCC wedi cynyddu camau gorfodi yn erbyn nifer o wasanaethau yn ardal Caerdydd eleni oherwydd darpariaeth o ofal o ansawdd gwael i ddefnyddwyr gwasanaeth. Er y bu enghreifftiau o waith partneriaeth da i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau, bu achlysuron pan fo AGGCC wedi bod o'r farn bod y cyngor yn araf i weithredu yn dilyn pryderon. Mae hyn yn arbennig yng nghyswllt ansawdd gwasanaethau preswyl a ddarperir i bobl ag anghenion iechyd meddwl. Nodwyd yr angen i'r cyngor gryfhau ei brosesau adolygu a'i waith monitro contractau ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol yn y gorffennol ac mae hwn yn dal i fod yn faes sy'n peri pryder.

Mae'r cyngor wedi gwneud darn arloesol o waith wrth gomisiynu gofal cymdeithasol i oedolion. Sefydlwyd tasglu dan arweinyddiaeth aelod o'r cabinet i archwilio datblygiad grŵp buddiant cymunedol i gomisiynu gofal cartref. Mae hwn yn ddarn arloesol o waith y bydd gan AGGCC ddiddordeb ynddo wrth iddo fynd rhagddo. Mae'n amlwg yn bwysig bod y cyngor yn fodlon y gall unrhyw fodolau newydd o ddarparu gwasanaethau fodloni blaenoriaethau'r cyngor i wella ansawdd y gweithlu ac ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Plant

Mae gan y cyngor amrywiaeth o wasanaethau ar gael i blant a'u teuluoedd. Mae'r cyngor yn darparu lleoliadau preswyl i rai plant sy'n derbyn gofal. Mae arolygiadau rheoleiddio diweddar wedi darganfod bod y gwasanaeth yn sicrhau canlyniadau da i'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, er bod cyrhaeddiad addysgol yn dal i fod yn gymharol wael.

Hefyd, mae'r cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth agos ag AGGCC i sicrhau gwelliant mewn darpariaeth breswyl breifat lle nodwyd pryderon.

Mae'r cyngor wedi canolbwyntio sylw ar hyrwyddo ei wasanaeth maethu ac mae wedi cynnal ymgyrch farchnata i gynyddu nifer y gofalwyr. Canfu arolygiad diweddar AGGCC bod angen gwelliannau mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac wedi gweithredu i wella'r broses o fonitro ymweliadau statudol a'r trefniadau comisiynu o ran plant a leolir gan y gwasanaeth maethu.

Mae nifer y plant mewn angen a nodwyd gan y cyngor wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw adroddiad y cyfarwyddwr wedi darparu unrhyw dystiolaeth o ddadansoddiadau a wnaed i ddeall y rhesymau y tu ôl i hyn. Mae'n bosibl y gallai'r gostyngiad i'r niferoedd fod oherwydd ad-drefnu'r strategaeth cymorth i deuluoedd a'r strategaeth gofalwyr ifanc trwy drefniadau partneriaeth Caerdydd a'i bwyslais ar ymyrraeth gynnar. Fodd bynnag, bydd y cyngor yn dymuno cael ei sicrhau nad yw ei berfformiad cyffredinol o ran ei waith pwysig gyda phlant mewn angen yn dirywio.

Mae angen rhoi sylw brys i berfformiad o ran adolygu cynlluniau plant mewn angen yn unol â'r amserlen statudol hefyd. Er y gwnaed rhywfaint o welliannau, mae angen cynnydd parhaus yn y maes hwn.

Mae menter Dechrau'n Deg ar gyfer teuluoedd a phlant dan bedair oed mewn ardaloedd o amddifadedd a nodwyd yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod plant ledled Cymru sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dechrau'n Deg wedi bodloni neu ragori ar eu cerrig milltir datblygiadol. Mae tua 16% o blant dan bedair oed yng Nghaerdydd yn derbyn gwasanaeth. Mae hyn rhyw fymryn yn uwch o'i gymharu â gweddiill Cymru.

Mae perfformiad y cyngor o ran cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran plant sy'n derbyn gofal yn dangos darlun cymysg. Mae gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt gynllun gofal wedi ei sefydlu ar adeg lleoli cychwynnol yn bryder, gan fod angen i ddarparwyr gofal ddeall anghenion pobl ifanc fel y gallant eu diwallu'n llawn. Mae perfformiad yn y maes hwn wedi dirywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gallai effeithio'n negyddol ar y profiad a'r potensial ar gyfer cynnydd cynnar plant sy'n dechrau derbyn gofal.

Mae gwaith partneriaeth gyda Gweithredu dros Blant yn cynnig adnodd sydd wir ei angen ar gyfer gwasanaethau seibiant i deuluoedd a phlant ag anableddau. Mae'r galw am y ddarpariaeth yn cynyddu ac mae'n sicr y bydd y cyngor yn ystyried y posibilrwydd o ehangu'r gwasanaeth yn unol â'i adnoddau cyffredol.

Mae gwaith gyda phlant sy'n troi'n oedolion wrth iddynt symud o'r gwasanaethau i blant yn dal i fod yn faes sydd angen mwy o sylw a gwelliant. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn amlygu rhan ailstrwythuro asiantaethau partner yn yr oedi wrth geisio gwella'r broses o drosglwyddo rhwng gwasanaethau. Ceir protocol y cytunwyd arno gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a ddylai sicrhau bod pobl ifanc y nodwyd eu bod angen cyllid gofal iechyd parhaus yn cael hynny mewn modd prydlon.

O ystyried y sylw a roddwyd i waith gyda gofalmwyr ifanc yng Nghaerdydd yn ystod y flwyddyn, mae perfformiad o ran asesu gofalmwyr ifanc y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt wedi dirywio ac mae'n sylweddol waeth nag awdurdodau tebyg a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae canran y gofalmwyr ifanc a aeth yn eu blaenau i dderbyn gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r diffyg o ran asesu gofalmwyr ifanc ac mae wedi gwneud trefniadau i sicrhau y gall y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf newydd ddiwallu anghenion gofalmwyr ifanc. Roedd disgwyl i'r gwasanaeth hwn gychwyn o fis Ebrill 2013.

Cynhaliodd AGGCC ymweliad safle â'r grŵp strategaeth gofalmwyr ifanc. Y grŵp hwn sy'n gyfrifol am oruchwylio a gweithredu cynllun cyflawni'r strategaeth gofalmwyr ifanc. Nodwyd gennym fod Caerdydd yn gweithio'n agos â darparwyr sector gwirfoddol a thrydydd sector a chanfuwyd gennym, er bod nifer o ofalmwyr ifanc yn derbyn rhyw fath o wasanaeth, nid oeddent wedi eu cynnwys yn y ffigurau perfformiad gan nad oedd unrhyw asesiad ffurfiol wedi ei gynnal. Gallai hyn esbonio'r niferoedd isel o asesiadau ffurfiol a gofnodwyd ac nid oedd felly'n adlewyrchu gwaith y cyngor gyda gofalmwyr ifanc yn llawn.

Meysydd o gynnydd

- Gwasanaeth ailalluogi'r cyngor.
- Swydd ychwanegol i gefnogi'r defnydd o wasanaethau teleofal.
- Rhagweld effaith diwygio lles.
- Dull comisiynu arloesol yn y gwasanaethau gofal cartref.
- Ymgyrch farchnata ar gyfer gwasanaethau maethu.

Meysydd i'w gwella

- Ansawdd adolygiadau a chomisiynu gwasanaethau i bobl ag anghenion iechyd meddwl.
- Adolygu cynlluniau plant mewn angen.
- Cyflawni cyfrifoldebau statudol y cyngor yn y gwasanaeth maethu.
- Sicrhau bod cynlluniau gofal wedi eu sefydlu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar y pwynt derbyn.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae Caerdydd wedi parhau i fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i alluogi mwy o bobl i barhau i fyw yn y gymuned yn hirach. Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd trwy teleofal, gofal cartref a gwaith partneriaeth gyda'r adran dai a byrddau iechyd lleol wedi lleihau'r angen i bobl ystyried gofal preswyl fel yr unig ddewis i ddiwallu eu hanghenion.

Llwyddodd Caerdydd i wella perfformiad y llynedd o ran y defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod hwn yn faes o dwf

parhaus sy'n cynnig mwy o ddewis i bobl o ran y ffordd y darperir gwasanaethau iddynt. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi y llwyddwyd i wella perfformiad o 29%, er na chyrrhaeddodd y cyngor ei darged ei hun o ddyblu nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol. Mae hwn yn faes y bydd y cyngor yn dymuno parhau i'w ddatblygu.

Roedd oediadau wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty yn faes i'w wella a nodwyd yn 2011/12. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos dim ond mymryn o welliant yn y maes hwn er gwaethaf ymdrechion cryf y cyngor a'i bartneriaid.

Mae'r gwasanaeth ailalluogi yn cefnogi pobl dros 18 oed sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer y gwasanaeth ac yn cydnabod manteision y gwasanaeth o ran lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Fodd bynnag, mae'r galw i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty yn awgrymu anghydbwysedd sylweddol rhwng cefnogi a chadw pobl yn y gymuned a chefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty. Mae'n bosibl y gallai'r ffaith nad oes cymaint o wasanaeth ar gael yn y gymuned gynyddu'r galw am ofal preswyl, a fyddai'n groes i amcanion y cyngor.

Mae mwyafrif y bobl â namau synhwyrdd a chorfforol yn derbyn gwasanaethau yn y gymuned yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cost y gwasanaeth a ddarparwyd yn sylweddol uwch o'i gymharu ag awdurdodau tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Dylai'r cyngor ystyried archwilio'r rheswm y tu ôl i'r anghysondeb ymddangosiadol hwn.

Dywed y cyngor bod trefniadau gweithio agos gyda Chyngor Bro Morgannwg a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro o ran pobl ag anawsterau camddefnyddio sylweddau ac alcohol. Mae'r bwrdd cynllunio ardal amlddisgyblaeth sy'n gweithredu ar draws y ddau gyngor wedi arwain at ostyngiad sylweddol i'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau.

Ceir trefniant partneriaeth agos rhwng y cyngor, y bwrdd iechyd prifysgol ac AGGCC i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae'r cyngor wedi defnyddio'r weithdrefn symud pryderon i'r lefel nesaf ar gyfer nifer o wasanaethau a reoleiddir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau gwelliant.

Dim ond tri chwarter y bobl sy'n derbyn gwasanaethau dderbyniodd adolygiad o'u hanghenion y llynedd. Mae adolygiadau yn bwysig i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu a bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n briodol. Mae hwn yn faes y mae angen rhoi sylw iddo a'i wella.

Profiad AGGCC yw bod gweithdrefnau amddiffyn oedolion yn gweithio'n dda i wella canlyniadau i'r bobl agored i niwed sy'n defnyddio gwasanaethau.

Plant

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng i 544, sy'n ostyngiad o 21 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad o ran sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar y pwynt mynediad wedi gwaethygu. Hefyd, mae canran y plant a gafodd dri neu fwy o leoliadau mewn blwyddyn wedi cynyddu. Mae'r

dangosyddion hyn yn dangos bod angen i'r cyngor wneud mwy o waith i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn gwasanaeth sy'n cyfateb orau i'w hanghenion. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau hefyd bod gan ddarparwyr gwasanaeth ddigon o wybodaeth i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu'r anghenion hyn yn llawn.

Mae arolygiadau AGGCC o leoliadau plant a reoleiddir yng Nghaerdydd wedi cadarnhau nad yw'r cyngor wedi darparu cynlluniau gofal i blant sy'n derbyn gofal ar adeg y lleoliad cyntaf bob amser. Mae hwn yn faes perfformiad sydd wedi dirywio ers y llynedd ac yn un y mae angen i'r cyngor fynd i'r afael ag ef. Canfuom hefyd bod rhai cynlluniau gofal a oedd wedi eu sefydlu yn gyfyngedig iawn o ran nodi unrhyw amcanion i'w cyflawni ar ran y plentyn.

Pan oedd adolygiadau yn cael eu cynnal, canfuwyd gennym na ddarparwyd adroddiadau ar yr adolygiadau, gan gynnwys unrhyw argymhellion, yn brydlon. Roeddent yn cael eu darparu yn y cyfarfod adolygu nesaf fel arfer, a oedd chwe mis yn ddiweddarach fel rheol, gan achosi oedi posibl o ran datblygu cynlluniau ar gyfer plant.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cynnig sylwadau ar ddatblygu cysylltiadau agosach â'r tîm addysg plant sy'n derbyn gofal, sydd wedi darparu canlyniadau gwell o ran atal plant sy'n derbyn gofal rhag cael eu gwahardd o'r ysgol.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyrhaeddiad addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Mae angen i'r cyngor sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol i sicrhau a chynnal cynnydd academaidd. Mae hwn yn un maes y mae angen ei wella'n sylweddol a gellir ond disgrifio'r cynnydd hyd yn hyn fel bod yn wael.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi mewn llety priodol, gan sicrhau bod 100% o'r holl bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn tai addas. Gwnaed rhywfaint o gynnydd i sicrhau bod gan bobl ifanc gynghorydd personol pan fo ganddynt hawl i hynny, ond mae angen gwneud mwy o waith o hyd. Mae trafodaethau gyda'r cyngor yn dangos bod hwn yn fater y maent yn ceisio mynd i'r afael ag ef ond nid ydynt wedi gallu recriwtio pobl i'r swydd.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cyfeirio at ansawdd a chysondeb yr ymatebion i atgyfeiriadau ar ôl cyflwyno'r tîm Amddiffyn Plant ac Oedolion. Fodd bynnag, nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth na ddadansoddiad ar y cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Awgrymwyd y gallai'r cynnydd fod oherwydd nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud gan yr heddlu erbyn hyn. Dylai'r cyngor archwilio'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd hwn ac ystyried cyfarfod â'r heddlu i archwilio sut y gellid rheoli hyn orau.

Mae perfformiad o ran nifer yr adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol wedi aros yn gyson, sef 98%.

Trwy arolygu gwasanaethau i blant a reoleiddir, codwyd nifer o bryderon gan ddarparwyr am yr oedi cyn darparu adborth a chanlyniadau yn dilyn atgyfeiriad amddiffyn plant. Codwyd y materion hyn gyda'r cyfarwyddwr gan AGGCC ac maent yn haeddu rhagor o sylw i sicrhau bod pob ochr yn teimlo eu bod wedi eu hymgysylltu, eu hymrwymo ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y broses hon.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn darparu tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol o ran lleihau nifer y bobl ifanc a dderbynnir i'r system cyfiawnder troseddol. Mae gwaith partneriaeth a strategaethau ymyrraeth gynnar wedi cynnig manteision o ran lleihau nifer y troseddwr tro cyntaf a nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cyhuddo a'u cymryd i'r llys.

Meysydd o gynnydd

- Taliadau uniongyrchol.
- Trefniadau diogelu oedolion.
- Y gostyngiad yn y rhestr aros am wasanaethau camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Meysydd i'w gwella

- Oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Deall a, phan fo'n briodol, mynd i'r afael ag unrhyw resymau y tu ôl i'r cynnydd yn yr atgyfeiriadau amddiffyn plant.
- Adolygiadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Cwblhau cynlluniau gofal plant ar y pwynt mynediad i wasanaeth.
- Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Recriwtio cynghorwyr personol.
- Cyfarfodydd proffesiynol Rhan 4.

GALLU

Cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae gan Gaerdydd boblogaeth aml-ddiwylliant mwy amrywiol nag awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw grŵp dan anfantais yn y ddarpariaeth o wasanaethau trwy gynllun cydraddoldeb strategol y cyngor a gweithredu'r cynllun effaith ar gydraddoldeb ar bolisiau newydd a rhai sy'n cael eu datblygu.

Er mwyn ymateb i effaith diwygio lles, mae'r cyngor wedi sefydlu tasglu i ddeall effaith diwygio lles ar bobl Caerdydd. Rhagwelir y bydd ardaloedd mewnol dinas Caerdydd yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y newid, gan fod un o bob pump o bobl yng Nghaerdydd eisoes yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae'r cyngor wedi dechrau nodi effaith a chost bosibl diwygiadau lles ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd angen i'r cyngor barhau i gefnogi gwasanaethau yn y gymuned os bydd y cynnydd rhagweledig i'r boblogaeth yn codi i'r lefelau a adroddir mewn

dangosyddion perfformiad. Gallai'r cynnydd hwn gael effaith sylweddol ar adnoddau'r cyngor yn y dyfodol a'i allu i ddarparu'r un lefel o wasanaethau i bobl.

Gorwariwyd y gyllideb ar gyfer 2012/13 yn y gwasanaethau i oedolion ac, yn fwy arwyddocaol, yn y gwasanaethau i blant. Roedd adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi pam y bu'n rhaid gorwario a sut y mae hyn wedi cael ei reoli i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd o ran recriwtio i'r swyddi penaethiaid gwasanaeth newydd a datblygiad y strwythur rheoli newydd. Bydd cynaliadwyedd cost swyddi ychwanegol newydd yn fater i'r cyngor ei ystyried yn ystod y flwyddyn i ddod ond mae'r angen am allu rheoli cryf a chyson i ddarparu gwasanaethau a sicrhau gwelliant yn eglur iawn.

Oedolion

Bu cynnydd o 21 yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir yn y gwasanaethau i oedolion eleni. Mae mentrau hyfforddi'r gweithlu yn cael eu cynnig i ddarparwyr gwasanaeth gan y cyngor. Mae hwn yn wasanaeth a werthfawrogir gan ddarparwyr ac mae'n rhoi mynediad iddynt at hyfforddiant perthnasol ac achrededig i ddiwallu anghenion pobl a gynorthwyr mewn lleoliadau gofal a reoleiddir.

Mae cais llwyddiannus ar y cyd â chyngor Bro Morgannwg wedi arwain at sefydlu cronfa gydweithredol ranbarthol i ddarparu modelau gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Plant

Mae'r adnoddau ychwanegol a neilltuwyd i'r tîm derbyn ac asesu wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni ellir gorbwysleisio'r angen am weithlu digonol, profiadol a chymwys i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac o ansawdd da i blant a theuluoedd. Dylai'r cyngor barhau i adolygu ei allu rheng flaen a rheoli i gefnogi a sbarduno'r gwelliannau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau da yn ogystal ag ystyried yr angen am gadernid a chynllunio olyniaeth.

Mae trefniadau partneriaeth yn gryf ac mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd dysgu ar y cyd ac a rennir.

Gwnaed cynnydd o ran uno byrddau lleol diogelu plant Bro Morgannwg a Chaerdydd. Y gobaith yw y bydd y bwrdd newydd yn dechrau ar ei waith yn ystod y flwyddyn i ddod.

Meysydd o gynnydd

- Trefniadau partneriaeth ar y cyd i nodi modelau gofal newydd.
- Swyddi gweithwyr cymdeithasol ychwanegol i oedolion.
- Cynnal adnoddau ychwanegol yn y tîm derbyn ac asesu plant.

- Y symudiad tuag at fwrdd diogelu plant rhanbarthol.

Meysydd i'w gwella

- Sefydlu strwythur rheoli cynaliadwy.

Darparu cyfeiriad:

Roedd 2012/13 unwaith eto'n flwyddyn o newid sefydliadol a rheoli sylweddol yn y cyngor. Gwnaed cynnydd o ran hysbysebu'r swyddi cyfarwyddwyr ar gyfer y gwasanaethau i blant ac ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Eglurwyd y cyfrifoldeb cyffredinol am ddyletswyddau statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn fwy diweddar, a chyfarwyddwr y gwasanaethau i blant sydd â'r cyfrifoldeb hwn.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr wedi amlygu nifer o flaenoriaethau ar draws meysydd gwasanaeth i gael eu datblygu gan y cyfarwyddwyr newydd a'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae cefnogaeth gorfforaethol i'r gwasanaethau cymdeithasol yn dal i fod yn gryf a sicrhawyd bod adnoddau ar gael i gefnogi meysydd penodol o arfer. Bu newidiadau yn y cyngor, a phenodwyd arweinwyr cyngor penodol ar gyfer y gwasanaethau i blant ac i oedolion.

Mae AGGCC wedi mynychu pwyllgorau craffu, i gyflwyno gwybodaeth yn dilyn gwahoddiad ac i arsylwi'r pwyllgor wrth ei waith. Ar yr achlysuron hyn, bu herio effeithiol a goruchwyllo da o ran polisiau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhai mentrau penodol y cyngor wedi elwa ar gefnogaeth arweinwyr craffu wrth ddatblygu mentrau newydd.

Meysydd o gynnydd

- Cyfranogiad ac arweinyddiaeth aelodau mewn prosiectau arloesol yn ymwneud â chomisiynu a gwaith partneriaeth.

Meysydd i'w gwella

- Cryfhau'r gallu o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth trwy benodi uwch reolwyr parhaol a phrofiadol.